GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Biopsi Ysgyfaint dan Arweiniad Sgan CT

# Adran Anadlol



**Dyddiad ac amser y biopsi: ………………………………………………………………**

**Lleoliad: ………………………………………………………………………**

**Cyfarwyddiadau dim trwy'r geg: ………………………………………………………………**

**Pam y cefais gyngor i gael yr archwiliad hwn?**
Mae eich meddyg ymgynghorol wedi gofyn i chi gael biopsi gan ddefnyddio nodwydd i helpu i ganfod achos y cysgod ar eich sgan pelydr-X o'r frest. Pwrpas y driniaeth hon yw casglu sampl fach o feinwe'r ysgyfaint i'w dadansoddi yn y labordy patholeg. Mae'r math hwn o fiopsi fel arfer yn llwyddiannus wrth benderfynu a yw'r cysgod ar y sgan pelydr-X o'r frest yn ganser yr ysgyfaint neu beidio. Fodd bynnag, ni fydd canlyniadau biopsi negyddol o reidrwydd yn eithrio'r posibilrwydd hwn.

**Ble fydd y sgan yn cael ei gynnal a pha drefniadau sydd angen i mi eu gwneud?**
Bydd y weithred yn cael ei chynnal yn yr adran radioleg yn Ysbyty Athrofaol y Faenor neu yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Bydd y weithred yn cael ei chynnal yn yr adran CT gan radiolegydd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i gleifion aros yn yr ysbyty am gyfnod byr ar ôl y biopsi. Dylech ddod i'r apwyntiad gyda rhywun a fydd yn gallu eich gyrru adref ar ôl y prawf. Dylid osgoi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd adref ar ôl y biopsi, ac felly rydym yn argymell eich bod yn defnyddio tacsi neu drafnidiaeth breifat arall. Mae'n rhaid i rywun fod ar gael i aros gyda chi dros nos. Dewch â bag dros nos gyda chi rhag ofn y bydd angen i chi aros yn yr ysbyty.

**A allaf fwyta ac yfed cyn y profion?**
Ni ddylech fwyta unrhyw beth am 4 awr cyn y weithred, ac yna dylech ond yfed dŵr am hyd at 2 awr cyn amser eich apwyntiad.

**A oes yn rhaid i mi gymryd fy nhabledi ar ddiwrnod y prawf?**
Oes, yn gyffredinol. Bydd y meddygon a welsoch yn y clinig wedi gwirio eich meddyginiaethau gyda chi. Gofynnwch a oes angen i chi eu cymryd. Ni ddylech fod yn cymryd Warffarin, Heparin na theneuwyr gwaed newydd (e.e. Apixaban). Os ydych yn cymryd Warffarin, efallai y bydd angen i ni drefnu prawf gwaed (INR) cyn y weithred. Os ydych yn cymryd cyffur o'r enw Clopidogrel, fel arfer dylid rhoi'r gorau i gymryd hwn 7 diwrnod cyn y biopsi.

**Beth fydd yn digwydd?**
Mae'r weithred yn cynnwys glanhau'r croen, chwistrellu ychydig o anesthetig lleol ac yna rhoi nodwydd biopsi fach yn rhan o'r ysgyfaint sydd dan sylw. Efallai y bydd angen mewnosod y nodwydd fwy nag unwaith. Ar ôl cael sampl boddhaol, byddwch yn dychwelyd i'r ward / uned llawdriniaeth ddydd i gael eich monitro am o leiaf 4 awr.

**A oes unrhyw gymhlethdodau?**
Fel arfer, mae'r weithred yn un syml, ond gall fod cymhlethdodau.

1. Mae nifer fach o gleifion yn datblygu cwymp yn yr ysgyfaint a achosir gan ollyngiad aer o'r ysgyfaint i'r frest (niwmothoracs). Fel arfer, bydd hyn yn cael ei ganfod ar sgan pelydr-X o'r frest cyn i chi gael eich rhyddhau o'r ysbyty. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes angen triniaeth, er efallai y byddwch yn cael eich cynghori i aros yn yr ysbyty dros nos i gael rhagor o arsylwadau. Yn anaml iawn, os yw'r niwmothoracs yn fawr neu os oes gennych symptomau, efallai y bydd angen triniaeth arnoch. Gall hyn gynnwys mewnosod tiwb draenio bach yn y frest ac arhosiad byr yn yr ysbyty, neu efallai y byddwch yn mynd adref gyda thiwb llai (awyrell) yn y frest gyda chyngor i ddychwelyd i'r ward y diwrnod canlynol am adolygiad.

2. Mae'n gyffredin i besychu gwaed ar ôl y weithred. Fel arfer, bydd hyn yn gwella heb driniaeth, ac ni fydd o reidrwydd yn oedi eich rhyddhau o'r ysbyty. Mae gwaedu difrifol yn ddigwyddiad anghyffredin iawn.

**Beth allaf ei wneud pan fyddaf yn cyrraedd adref?**
Dylech orffwys am y 24 nesaf. Dylid osgoi straenio a chodi pethau trwm am 48 awr. Os oes unrhyw deimlad anghyfforddus yn y man lle cawsoch eich biopsi, gallwch gymryd boenleddfwyr ysgafn megis parasetamol. Gallwch dynnu'r plaster bach 24 awr ar ôl i'r biopsi gael ei gynnal.

Os byddwch yn pesychu mwy nag ychydig o lwyau de o waed, yna dylech fynd i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor. Yn ogystal, os byddwch yn dod yn fwy byr eich anadl nag arfer, neu os byddwch yn profi poen ddifrifol yn y frest o fewn 24-48 awr o ddychwelyd adref, yna ewch i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Byddwn yn cysylltu â chi o fewn pythefnos yn gofyn i chi fynd yn ôl at eich meddyg am y canlyniadau.

**Rhifau Cyswllt:**


**Nyrsys Clinigol Arbenigol** –Ysbyty Brenhinol Gwent
Ffôn: 01633 656149
Sam Williams, Becky Weston-Thomas a Ceri-Anne Maggs

**Nyrsys Clinigol Arbenigol** – Ysbyty Nevill Hall
Ffôn: 01873 732860
Emma Williams a Carol Davies


**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**